

CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 27 Ionawr 2022 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 21 Ionawr 2022.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir McKerlich (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Burke, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

112 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Linda Morgan. Roedd y Cynghorydd Philippa Hill-John yn cael rhai anawsterau technegol a bydd yn ymuno cyn gynted â phosibl.

113 : DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaed y datganiadau buddiannau canlynol yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau:

Cynghorydd	Eitem	Natur y Buddiant
Y Cynghorydd Sandrey	11 – Cynnig 1	Personol – yn gweithio i Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
Y Cynghorydd Huw Thomas	21	Personol – Cyfarwyddwr Anweithredol, Stadiwm y Mileniwm PLC
Y Cynghorydd Mia Rees	11 – Cynnig 1	Personol – Aelod o'r Bwrdd, YMCA Caerdydd sy'n hyrwyddo gwaith ieuencid
Y Cynghorydd Bradbury	11 a 12 – Cynigion 1 a 2	Personol – Aelod o sefydliad Gweithredu yng Nghaerau a Threlái sy'n darparu gwasanaethau ieuencid
Y Cynghorydd N Mackie	11 a 12 – Cynigion 1 a 2	Personol – Aelod o Fwrdd Canolfan Gymunedol Cathays a Grassroots sy'n darparu gwasanaethau ieuencid
Y Cynghorydd Bowen-Thomas	11 a 12 – Cynigion 1 a 2	Personol – Prif Swyddog Gweithredol Cymru Ddiogelach sy'n rhedeg gwasanaethau ieuencid yn y ddinas
Y Cyng. Bridgeman	11 a 12 – Cynigion 1 a 2	Personol – Gweithiwr Ieuencid Proffesiynol a'i gyflogi gan Weithredu Dros Blant sy'n darparu Gwasanaethau

		leuenctid yng Nghaerdydd
Y Cyngorydd Gordon	11 – Cynnig 1	Personol – Cyfarwyddwr Prosiect leuenctid Canol Dinas Grassroots
Y Cyng. Ebrahim	11 – Cynnig 1	Personol – Gweithiwr leuenctid a chymunedol sydd â chymwysterau proffesiynol ac wedi gweithio i Wasanaeth leuenctid Caerdydd.

Datganodd y Prif Weithredwr fuddiant personol yn Eitem 21 gan ei fod yn Gyfarwyddwr anweithredol Stadiwm y Mileniwm PLC.

114 : COFNODION

Llofnodwyd cofnodion y cyfarfod ar 25 Tachwedd fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

115 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Gofynnodd Mr Rhydian Payne y cwestiwn canlynol i'r Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd, y Cyngorydd Michael.

Gyda thraffig yn aml yn broblem y tu allan i'r CAGC yn Ffordd Lamby, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am chwilio am safle CAGC newydd yng Ngogledd Caerdydd?

Ateb – y Cyngorydd Michael

Nid ydym yn ymwybodol o faterion traffig y tu allan i'r ganolfan ailgylchu yn Ffordd Lamby. Mae'r system archebu newydd yn cefnogi'r gwaith o reoli nifer y cerbydau sy'n mynychu'r safle ac nid yw preswylwyr yn cael unrhyw anhawster i fynychu'r ganolfan ailgylchu yn eu hamser penodedig.

Cynhaliwyd adolygiad sylfaenol o safleoedd canolfannau ailgylchu posibl, ond ni nodwyd unrhyw leoliadau addas yng ngogledd Caerdydd adeg yr adolygiad. Felly, rydym yn dal i archwilio opsiynau posibl ar gyfer safleoedd wrth iddynt ddod ar gael.

Cwestiwn Atodol – Rhydian Payne

Faint o safleoedd sydd wedi cael eu hystyried hyd yn hyn? Os yw pob safle posibl wedi'i ddihsbyddu efallai y gellid defnyddio'r gyllideb o £3m a neilltuwyd ar ei gyfer i wrthbwysu'ch cynnydd arfaethedig o 4% yn y dreth gyngor?

Ateb – y Cyngorydd Michael

Edrychwyd ar gyfanswm o 8 safle. Mae'r holl gynghorwyr lleol yn gwybod hyn, ac roedd pob un ohonynt wedi'i gael. Nid wyf yn gwneud penderfyniadau cyllidebol ar lefel Treth y Cyngor ar fy mhen fy hun yn ystod cwestiynau cyhoeddus.

116 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

- Cyflwynodd y Cyngorydd Cunnah ddeiseb yn cynnwys 428 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i adfer yr ardal chwarae i blant hŷn ym Mharc Sanatorium.

Cyflwynodd y Cynghorydd Taylor ddeiseb yn cynnwys 71 o lofnodion yn galw ar y Cyngor i drwsio'r palmentydd a dorwyd a chyflwyno Strategaeth Gerdded

117 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Dywedodd yr Arglwydd Faer ei fod wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau:

- Cynrychioli'r Cyngor mewn gwasanaeth coffa ar gyfer y cyn-Arglwydd Raglaw Dr Peter Beck yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ym mis Tachwedd y llynedd;
- Rhoi araith groeso yng Ngwasanaeth Coffa'r Nadolig a gynhaliwyd yn Amlogfa Draenen Pen-y-graig ar 5 Rhagfyr a gafodd ei ffrydio'n fyw;
- Cynhaliwyd digwyddiadau ar gyfer derbynwyr Anrhydeddau Ei Mawrhydi y Frenhines yn Neuadd y Ddinas ar 14 a 15 Rhagfyr. Rhoddwyd yr arwyddluniau i'r derbynwyr gan Arglwydd Raglaw De Morgannwg am wasanaethau i'r gymuned; a

Mynychu'r seremoni 'rithwir' a recordiwyd o flaen llaw ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocaust; y thema ar gyfer 2022 yw 'Un Diwrnod'

118 : ADRODDIAD AR ADOLYGIAD TEIRBLWYDD Y DATGANIAD POLISI TRWYDDED GAMBLO.

Roedd yr adroddiad i ofyn am gymeradwyaeth ffurfiol i Ddatganiad Polisi Trwyddedu Gamblo'r Cyngor yn dilyn adolygiad tair blynedd.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

1. Cymeradwyo'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu Gamblo i'w gyhoeddi ar 31 Ionawr 2022 a'i fabwysiadu i'w ddefnyddio ar y dyddiad hwnnw;

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i wneud diwygiadau gweinyddol i'r polisi pe bai angen.

119 : ADRODDIAD AR DDATGANIAD CYNGOR AMRYWIOL

Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried y cais gan Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i bob Cyngor yng Nghymru ymrwmo i fod yn Gyngor Amrywiol yn 2022.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

- a. Nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau.
- b. Gwneud Datganiad Cyngor Amrywiol, fel y nodir yn llawn yn Atodiad C, gydag ymrwymiad i:
 - Ehangu Cynrychiolaeth Ddemocrataidd Leol,
 - Cefnogi ymwneud â gwneud penderfyniadau lleol
 - Cefnogi Cyngorwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol

Datblygu Cynllun Gweithredu Cyngor Amrywiol 2022-27, mewn ymgynghoriad â grwpiau cynrychioliadol a chymunedol, i'w gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor yn dilyn yr Etholiadau Lleol yn 2022

120 : ADRODDIAD NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Roedd yr adroddiad i alluogi'r Cyngor i ystyried y newidiadau a argymhellir i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r:

- (i) Rheolau Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor ar Gynigion Cyffredin; a
- (ii) Dirprwyaethau swyddogion ar gyfer ailraddio ceisiadau a gyflwynwyd gan Reolwyr Gweithredol.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Cyngor:

Y diwygiadau i'r Cyfansoddiad a nodir ym mharagraffau 12, 16 a 21 o'r adroddiad hwn, ac i ofyn i'r Swyddog Monitro ddiweddarau'r Cyfansoddiad yn unol â hynny.

121 : DATGANIADAU AELODAU'R CABINET

Ymatebodd [yr Arweinydd](#) i gwestiynau a ofynnwyd ar y canlynol:

- Diweddariad COVID-19
- Cydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru

[Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau - Y Cynghorydd Thorne.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Llwybr Ôl-ddyledion Rhent

[Yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd - Y Cynghorydd Michael](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Cynllun Peilot Casgliadau Ailgyrchu ar Wahân
- Draenio a Glanhau Gylïau
- Casgliad Gwastraff y Mynydd Bychan
- Liffitiau â Chymorth.

[Yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd - Y Cynghorydd Hinchey](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Diweddariad Oakway

[Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles - Y Cynghorydd Elsmore.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Strategaeth Heneiddio'n Dda
- Addasiadau Anabl

- Cefnogi Pobl sydd ag Anabledd Dysgu

[Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau - Y Cynghorydd Merry.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Estyn
- Trefniadau Cymwysterau 2021-22
- Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

[Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth - Y Cynghorydd Caro Wild](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Ymgynghoriad ar y Strategaeth Fysus
- Diweddariad y Rhaglen Beicffordd
- Cynllun Llogi Beiciau

[Yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu - Y Cynghorydd Goodway.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Arena a Felodrom Dan Do
- Cymorth Busnes

[Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden - Y Cynghorydd Bradbury.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

- Prosiect Coeden Geirios Sakura
- Meinciau Gobaith
- Meysydd Chwarae a Seilwaith Parciau

[Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad - Y Cynghorydd Weaver.](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar y canlynol:

Ap Symudol CardiffGov

122 : HYSBYSIAD O GYNNIG 1

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mia Rees ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Jones-Pritchard wedi'i dderbyn i'w ystyried. Derbyniwyd dau ddiwygiad gan y Grŵp Llafur a Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Mia Rees i osod y cynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

Ansawdd a gwerth gweithwyr ieuencid a gwaith ieuencid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd

Bod gweithwyr ieuencid yn fodelau rôl gwerthfawr i bobl ifanc

Y rôl allweddol sydd gan waith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn

Y gall canolfannau ieuenctid fod yn rhan bwysig o gymunedau

Gwaith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Caerdydd

Y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni gwaith ieuenctid o ansawdd yng Nghaerdydd

Nid yw anghenion pobl ifanc wedi'u cyfyngu i un arc benodol yng Nghaerdydd ac er bod amddifadedd yn arwain at fwy o angen, mae angen ym mhob ward

Mae'r cysyniad Cymdogaeth 15 munud yn cynnwys pobl ifanc, eu hanghenion a mynediad i gyfleusterau

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

Sicrhau bod gweithwyr ieuenctid cymwysedig yn gallu cwmpasu Caerdydd gyfan gan eu galluogi i gyrraedd pobl ifanc lle bynnag y maent a phryd bynnag y bo'u hangen

Ymchwilio i'r cydlyn rhwng gweithwyr ieuenctid a'r heddlu a sicrhau bod arferion gorau ar waith ledled Caerdydd gyfan mewn materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Sicrhau bod gan bobl ifanc, waeth ble yn y ddinas y maent yn byw, fynediad i gyfleusterau ieuenctid a gallant gael gafael ar gymorth yn seiliedig ar waith ieuenctid pan fydd ei angen arnynt

Dod ag adroddiad sy'n amlinellu sut y gellir gwella'r gefnogaeth ar draws y ddinas o fewn 3 mis

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Jones-Pritchard.

Derbyniwyd y gwelliant cyntaf i'r Cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Merry i gynnig y diwygiad cyntaf fel a ganlyn:

Ychwanegu at is-baragraff 1 – 'ac yn llongyfarch Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ar gael marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid Lefel Efydd.

Ychwanegu at is-baragraff 3 – 'a bod gwaith ieuenctid yn broses addysgol benodol ar draws amrywiaeth o leoliadau, a allai gynnwys gweithwyr ieuenctid ar y stryd, mentoriaid ieuenctid a gweithwyr ieuenctid mewn canolfannau.

Ychwanegu at is-baragraff 4 – 'fel y mae'r gwaith a wneir gan ein timau gwaith ieuenctid ar y stryd, mentoriaid ieuenctid sy'n gweithredu ar draws y ddinas yn ymateb i angen lleol gan weithio gyda rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y

ddinas ble bynnag y maent, a'n tîm Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cefnogi rhai o ddysgwyr mwyaf agored i niwed y ddinas.'

Ychwanegu at is-baragraff 6 – 'gan gynnwys y rhai sy'n elwa o Grantiau Arloesi Ieuencid a chymorth ariannol y cyngor i Fenter Caerdydd a arferai gynnal darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ledled y ddinas.'

Ychwanegu at is-baragraff 7 – 'ond bod anghenion rhai grwpiau o bobl ifanc ac ardaloedd yn fwy yn enwedig gyda'r toriad mewn Credyd Cynhwysol, costau byw cynyddol a nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n mynd i dlodi. Gall gwaith ieuencid hefyd chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag effaith wahaniaethol covid ar ein pobl ifanc.'

Ychwanegu is-baragraff 9 – 'Gwaith gwych Addewid Caerdydd a mentoriaid ieuencid ledled y ddinas ac ym mhob un o'n hysgolion sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant o 8.8% yn 2010, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, i 1.5% ar adeg o ansicrwydd economaidd mawr.'

Ychwanegu is-baragraff 10 – 'Y gwaith a wnaed gan weithwyr ieuencid o amgylch y ddinas dros yr haf gan gynnwys y bws ieuencid.'

Ychwanegu is-baragraff 11 – 'Gwaith y tîm ieuencid digidol wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn rhithwir'.

Ychwanegu paragraff arall – 'Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu'r penderfyniad i gynnal adolygiad o'n darpariaeth gwasanaeth ieuencid i sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion pobl ifanc a datblygu buddsoddiad cynaliadwy, hirdymor mewn gwasanaethau ieuencid.'

Dileu 'Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:' a rhoi yn ei le - 'Mae'r Cyngor hwn yn credu y dylai'r adolygiad gynnwys:'

Is-baragraff 1 - Dileu 'Gwnewch yn siŵr bod. a rhoi 'Ehangu mynediad yn ogystal â sicrhau'

*Is-baragraff 2 – Dileu 'Ymchwilio i'r cydlynu rhwng' a rhoi yn ei le 'Sicrhau'
Dileu – 'a'r'*

Ar ôl ..Heddlu ychwanegu ', addysg, gwasanaethau plant, timau cyfiawnder ieuencid, diogelwch cymunedol a'r 3^{ydd} sector yn parhau i weithio'n agos fel bod'

Is-baragraff 3 – Dileu 'I wneud' a rhoi yn ei le 'Gwneud'

Dileu is-baragraff 4 a rhoi yn ei le -

'Sut y gallwn rannu arfer da wrth sicrhau ansawdd arferion gwaith ieuencid ar draws yr holl wasanaethau cymorth ieuencid yn effeithiol ac yn gwrando ar leisiau pobl ifanc, gan ddarparu hyfforddiant gwaith ieuencid i bob sefydliad sy'n gweithio gyda phobl ifanc

Datblygu strategaeth gweithlu sy'n buddsoddi mewn gweithlu amrywiol a chynhwysol sy'n cynrychioli ein cymunedau ac sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc drwy brentisiaethau corfforaethol a hyfforddeiaethau

Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod, wrth i ni anelu at fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant, fod yn rhaid i'r cyngor barhau i ymgysylltu â phobl ifanc eu hunain am y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

Ansawdd a gwerth gweithwyr ieuencid a gwaith ieuencid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd ac yn llongyfarch Gwasanaeth Ieuencid Caerdydd ar gael y Marc Ansawdd Gwaith Ieuencid Lefel Efydd

Bod gweithwyr ieuencid yn fodolau rôl gwerthfawr i bobl ifanc

Y rôl allweddol sydd gan waith ieuencid o ran cefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn a bod gwaith ieuencid yn broses addysgol benodol ar draws amrywiaeth o leoliadau a allai gynnwys gweithwyr ieuencid ar y stryd, mentoriaid ieuencid a gweithwyr ieuencid mewn canolfannau.

Gall canolfannau ieuencid fod yn rhan bwysig o gymunedau yn ogystal â'r gwaith a wneir gan ein timau gwaith ieuencid ar y stryd, mentoriaid ieuencid sy'n gweithredu ar draws y ddinas gan ymateb i angen lleol gan weithio gyda rhai o'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn y ddinas lle bynnag y maent a'n tîm Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cefnogi rhai o ddysgwyr mwyaf agored i niwed y ddinas.

Gwaith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Caerdydd

Y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwaith ieuencid o safon yng Nghaerdydd gan gynnwys y rhai sy'n elwa o Grantiau Arloesi Ieuencid a chymorth ariannol y cyngor i Fenter Caerdydd gynnal darpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg ledled y ddinas

Nid yw anghenion pobl ifanc wedi'u cyfyngu i un arc benodol o Gaerdydd ac mae angen ym mhob ward ond bod anghenion rhai grwpiau o bobl ifanc ac ardaloedd yn fwy penodol gyda'r toriad mewn Credyd Cynhwysol, costau byw cynyddol a nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n mynd i dlodi. Gall gwaith ieuencid hefyd chwarae rhan bwysig wrth fynd i'r afael ag effaith wahaniaethol covid ar ein pobl ifanc

Mae'r cysyniad Cymdogaeth 15 munud yn cynnwys pobl ifanc, eu hanghenion a mynediad i gyfleusterau

Gwaith gwyb Addewid Caerdydd a mentoriaid ieuencid ledled y ddinas ac ym mhob un o'n hysgolion sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant o 8.8% yn 2010, yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru, i 1.5% ar adeg o ansicrwydd economaidd mawr

Y gwaith a wnaed gan weithwyr ieuencid o amgylch y ddinas dros yr haf gan gynnwys y bws ieuencid

Gwaith y tîm ieuencid digidol wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn rhiwthwir

Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu'r penderfyniad i gynnal adolygiad o'n darpariaeth gwasanaeth ieuencid er mwyn sicrhau y gallwn ddiwallu anghenion pobl ifanc a datblygu buddsoddiad cynaliadwy, hirdymor mewn gwasanaethau ieuencid.

Mae'r cyngor hwn yn credu y dylai'r adolygiad gynnwys:

Ehangu mynediad yn ogystal â sicrhau bod gweithwyr ieuencid cymwysedig yn parhau i gwmpasu Caerdydd gyfan gan eu galluogi i gyrraedd pobl ifanc lle bynnag y maent a phryd bynnag y mae eu hangen.

Sicrhau gweithwyr ieuencid, yr heddlu, addysg, gwasanaethau plant, timau cyfiawnder ieuencid, diogelwch cymunedol a'r 3^{ydd} sector yn parhau i gydweithio'n agos fel bod yr arfer gorau ar waith ledled Caerdydd gyfan mewn materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Sicrhau bod gan bobl ifanc, waeth ble yn y ddinas y maent yn byw, fynediad i gyfleusterau ieuencid a'u bod yn gallu cael gafael ar gymorth yn seiliedig ar waith ieuencid pan fydd ei angen arnynt

Eiliwyd y diwygiad cyntaf yn ffurfiol gan y Cyngorydd Burke-Davies

Derbyniwyd yr ail ddiwygiad i'r Cynnig oddi wrth y Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cyngorydd Molik i gynnig yr ail ddiwygiad fel a ganlyn:

Ar ôl 'Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:' ychwanegu - 'Cynnwys a chyd-gynhyrchu cyfeiriad a datblygiad gwasanaeth ieuencid gyda gweithwyr ieuencid, sefydliadau ieuencid gwirfoddol a chymunedol ac yn bwysicaf oll ein hieuencid'.

Ar ôl y paragraff olaf ond un ychwaneger paragraff pellach – 'Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru o ran rhoi gwasanaethau ieuencid ar sail statudol'

Ychwanegu at ddiwedd y paragraff olaf – dileu 'o fewn 3 mis' a rhoi yn ei le gyda 'fel blaenoriaeth o fewn y flwyddyn ariannol nesaf'

Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

Ansawdd a gwerth gweithwyr ieuencid a gwaith ieuencid sy'n cefnogi pobl ifanc yng Nghaerdydd

Bod gweithwyr ieuencid yn fodolau rôl gwerthfawr i bobl ifanc

Y rôl allweddol sydd gan waith ieuenctid wrth gefnogi pobl ifanc i wireddu eu potensial llawn

Y gall canolfannau ieuenctid fod yn rhan bwysig o gymunedau

Gwaith caled ac ymroddiad y gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ledled Caerdydd

Y partneriaid sy'n gweithio gyda'r Cyngor i gyflawni gwaith ieuenctid o ansawdd yng Nghaerdydd

Nid yw anghenion pobl ifanc wedi'u cyfyngu i un arc benodol yng Nghaerdydd ac er bod amddifadedd yn arwain at fwy o angen, mae angen ym mhob ward

Mae'r cysyniad Cymdogaeth 15 munud yn cynnwys pobl ifanc, eu hanghenion a mynediad i gyfleusterau

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i:

Cynnwys a chyd-gynhyrchu cyfeiriad datblygiad gwasanaeth ieuenctid gyda gweithwyr ieuenctid, sefydliadau ieuenctid gwirfoddol a chymunedol ac yn bwysicaf oll ein hieuenctid.

Sicrhau bod gweithwyr ieuenctid cymwysedig yn gallu cwmpasu Caerdydd gyfan gan eu galluogi i gyrraedd pobl ifanc lle bynnag y maent a phryd bynnag y bo'u hangen

Ymchwilio i'r cydlyn rhwng gweithwyr ieuenctid a'r heddlu a sicrhau bod arferion gorau ar waith ledled Caerdydd gyfan mewn materion sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Sicrhau bod gan bobl ifanc, waeth ble yn y ddinas y maent yn byw, fynediad i gyfleusterau ieuenctid a gallant gael gafael ar gymorth yn seiliedig ar waith ieuenctid pan fydd ei angen arnynt

Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru o ran rhoi gwasanaethau ieuenctid ar sail statudol.

Dod ag adroddiad sy'n amlinellu sut y gellir gwella'r gefnogaeth ar draws y ddinas fel blaenoriaeth o fewn y flwyddyn ariannol nesaf

Eiliwyd yr ail ddiwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Naughton.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiadau.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Mia Rees i ymateb i'r materion a godwyd a chadarnhaodd fod diwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol wedi'i dderbyn.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar Ddiwygiad Un.

DERBYNIWYD y Bleidlais ar Ddiwygiad Un a gynigiwyd gan y Cynghorydd Merry ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Burke-Davies.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Merry i siarad cyn i'r bleidlais ar y Cynnig Cyfansawdd, fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur, gael ei chymryd.

Gohiriodd yr Arglwydd Faer yr eitem er mwyn i'r Grwpiau gytuno ar eiriad y Cynnig Cyfansawdd a byddai'n cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ar 17 Mawrth 2022.

123 : HYSBYSIAD O GYNNIG 2

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Ford wedi dod i law i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth y Grŵp Llafur.

Gwahoddwyd y Cynghorydd McEvoy gan yr Arglwydd Faer i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Mae'n ofid i'r Cyngor hwn fod cynifer o ganolfannau ieuenctid a gynhelir gan y Cyngor wedi'u cau ledled y Ddinas o dan y Weinyddiaeth Lafur ac yn galw am adroddiad ar

ailadeiladu Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ac ailagor canolfan ieuenctid newydd ym mhob ardal lle mae un wedi'i chau ers mis Mai 2012, ac

ar ôl llwyddo i ailagor yr holl ganolfannau ieuenctid blaenorol, ceisio cynyddu'r ddarpariaeth ymhellach.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Ford.

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Llafur. Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Bridgeman i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

Dileu: '.. Dinas o dan y ... hyd at ddiwedd paragraff 1 ac ychwanegu:

'DU. Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod gwasanaethau ieuenctid yn wasanaethau anstatudol ac ni adawyd awdurdodau lleol ledled y DU ag unrhyw ddewis ond i dorri gwasanaethau oherwydd toriadau llym a orfodwyd arnynt gan y glymblaid geidwadol, ddemocrataidd ryddfrydol yn 2010. Mae ffigurau a ddatgelwyd gan yr YMCA yn dangos gwir faint y toriadau ariannol i wasanaethau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ers 2010. £1.4bn yn 2010/2011 o'i gymharu â £429m yn 2018/19 sef gostyngiad mewn termau real o 70%. Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi'r buddsoddiad y mae Cyngor Caerdydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau ieuenctid o dan y weinyddiaeth hon drwy ehangu gwasanaethau mentora ieuenctid, gweithwyr ieuenctid ar y stryd yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i gynnal gwasanaethau drwy grantiau arloesi ieuenctid.

Ychwanegu'r canlynol cyn ailadeiladu gwasanaeth ieuenctid Caerdydd: *'Mae Caerdydd yn croesawu ymrwymiad y gweinyddiaethau i adolygiad o wasanaethau ieuenctid gyda'r nod o'*

Dileu gweddiill y paragraff hwnnw ac ychwanegu'r frawddeg ganlynol: *'Mae'r Cyngor yn nodi i wneud hyn ei bod yn hanfodol ein bod yn gwrando ar bobl ifanc ac yn ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau y gallwn greu gwasanaeth deniadol modern sy'n gynaliadwy ac yn hygyrch i blant a phobl ifanc ar draws y ddinas.'*

Dileu 'unwaith y' o'r trydydd paragraff a mewnosod: *'Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod'*

Dileu ' .. wedi'i gyflawni ... hyd at ddiwedd y paragraff ac ychwanegu: *'yn rhywbeth a fyddai'n creu model hen ffasiwn anghynaliadwy. Gydag ymrwymiad y weinyddiaeth hon i adolygu'r gwasanaeth bydd gennym gyfle i greu gwasanaethau arloesol modern a fyddai'n gwrando ar bobl ifanc ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion ar draws y ddinas.'*

Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor hwn yn gresynu bod cynifer o ganolfannau ieuenctid sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ar draws y DU yn cau. Mae'r Cyngor hwn yn nodi bod gwasanaethau ieuenctid yn wasanaethau anstatudol ac ni adawyd awdurdodau lleol ledled y DU ag unrhyw ddewis ond i dorri gwasanaethau oherwydd toriadau llym a orfodwyd arnynt gan y glymblaid geidwadol, ddemocrataidd ryddfrydol yn 2010. Mae ffigurau a ddatgelwyd gan yr YMCA yn dangos gwir faint y toriadau ariannol i wasanaethau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr ers 2010. £1.4bn yn 2010/2011 o'i gymharu â £429m yn 2018/19 sef gostyngiad mewn termau real o 70%. Mae'r Cyngor hwn hefyd yn nodi'r buddsoddiad y mae Cyngor Caerdydd wedi'i wneud mewn gwasanaethau ieuenctid o dan y weinyddiaeth hon drwy ehangu gwasanaethau mentora ieuenctid, gweithwyr ieuenctid ar y stryd yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i gynnal gwasanaethau drwy grantiau arloesi ieuenctid.

Mae Cyngor Caerdydd yn croesawu ymrwymiad y gweinyddiaethau i adolygiad o wasanaethau ieuenctid gyda'r nod o ailadeiladu Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd. Mae'r Cyngor yn nodi ei bod yn hanfodol ein bod yn gwrando ar bobl ifanc ac yn ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau y gallwn greu gwasanaeth deniadol modern sy'n gynaliadwy ac yn hygyrch i blant a phobl ifanc ledled y ddinas.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ail-drefnu'r holl hen ganolfannau ieuenctid yn rhywbeth a fyddai'n creu model anghynaliadwy sydd wedi dyddio. Gydag ymrwymiad y weinyddiaeth hon i adolygu'r gwasanaeth bydd gennym gyfle i greu gwasanaethau arloesol modern a fyddai'n gwrando ar bobl ifanc ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion ar draws y ddinas.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cyngorydd Lister.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd McEvoy i ymateb i'r eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cyngorydd McEvoy i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Diwygiad fel y'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Bridgeman a'i eilio gan y Cynghorydd Lister.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd Bridgeman i siarad cyn i bleidlais ar y Cynnig Diwygiedig fel y'i diwygiwyd gan y Grŵp Llafur gael ei chymryd.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig Terfynol.

124 : HYSBYSIAD O GYNNIG 3

Nododd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Mackie ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Lister wedi'i dderbyn i'w ystyried. Derbyniwyd un Diwygiad oddi wrth y Grŵp Propel.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Mackie i gynnig ei ddiwygiad fel a ganlyn:

Argyfwng Ynni Cenedlaethol

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod yr argyfwng ynni digynsail sy'n wynebu llawer o aelwydydd ledled Caerdydd, Cymru a'r DU. Yn ystod y misoedd i ddod bydd mwy a mwy o aelwydydd yn gweld cynnydd o faint na welwyd erioed o'r blaen wrth i'r cap ar brisiau ynni gael ei ddileu neu fod cytundebau ynni'n dod i ben.

Daw hyn ar ben argyfwng costau byw a grëwyd gan effeithiau Brexit a'r Pandemig Covid sydd eisoes wedi gweld gwasgfa ddigynsail ar incwm pobl.

Mae chwyddiant yn parhau'n uchel iawn sy'n rhoi pwysau enfawr ar gyllidebau cartrefi gan nad yw enillion wedi cynyddu ar yr un raddfa â phrisiau, gan arwain at dynhau cyllidebau teuluol a phobl yn waeth eu byd.

Mae costau ychwanegol byw o ddydd i ddydd eisoes yn effeithio'n negyddol ar bob cartref ledled Caerdydd ond hyd yn oed yn fwy felly ar deuluoedd sy'n byw'n agos at dlodi – llawer ohonynt yn deuluoedd sy'n gweithio sydd, serch hynny, yn dal i fod angen ymweld â banciau bwyd ac a fydd bellach yn wynebu'r dewis ofnadwy o wresogi eu cartref neu roi bwyd ar y bwrdd. Dyma Brydain y Torïaid.

Fel Cyngor, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i liniaru costau ynni. Mae hyn yn cynnwys

- y cymorth targedig sydd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a helpu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd,
- gwaith ein Gwasanaeth Cyngor Ariannol i wneud y mwyaf o hawlio budd-daliadau cymwys, a chyfeirio preswylwyr at yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael
- a'n buddsoddiad sylweddol yng nghartrefi presennol y Cyngor, i'w gwneud yn rhatach i'w gwresogi a byw ynddynt.

- Ein rhaglen adeiladu Cartrefi Cyngor, sy'n darparu niferoedd cynyddol o gartrefi carbon isel/di-garbon, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer rhent cymdeithasol.

Fodd bynnag, dim ond drwy gamau pendant gan Lywodraeth y DU y gellir pennu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd i ddelio â'r argyfwng costau byw

Derbyniwyd diwygiad i'r cynnig oddi wrth y Grŵp Propel.

Galwodd yr Arglwydd Faer ar y Cynghorydd McEvoy i gynnig y diwygiad fel a ganlyn:

Dileu brawddeg olaf paragraff 4 a rhoi yn ei le: *'Dyma Brydain Doriaidd Las ac yn Gymru Doriaidd.*

Dileu'r paragraff olaf a rhoi yn ei le: *'Cyfarwyddo swyddogion i lunio adroddiad manwl ar echdynnu nwy yng Nghymru, ei effaith ar leihau ôl troed carbon Caerdydd, ei effaith bosibl ar leihau biliau ynni i drigolion y Ddinas gyda'r bwriad o arwain partneriaeth gyhoeddus/breifaf yn y diwydiant.*

Byddai'r Cynnig Diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

Argyfwng Ynni Cenedlaethol

Mae'r cyngor hwn yn cydnabod yr argyfwng ynni digynsail sy'n wynebu llawer o aelwydydd ledled Caerdydd, Cymru a'r DU. Yn ystod y misoedd i ddod bydd mwy a mwy o aelwydydd yn gweld cynnydd o faint na welwyd erioed o'r blaen wrth i'r cap ar brisiau ynni gael ei ddileu neu fod cytundebau ynni'n dod i ben.

Daw hyn ar ben argyfwng costau byw a grëwyd gan effeithiau Brexit a'r Pandemig Covid sydd eisoes wedi gweld gwasgfa ddigynsail ar incwm pobl.

Mae chwyddiant yn parhau'n uchel iawn sy'n rhoi pwysau enfawr ar gyllidebau cartrefi gan nad yw enillion wedi cynyddu ar yr un raddfa â phrisiau, gan arwain at dynhau cyllidebau teuluol a phobl yn waeth eu byd.

Mae costau ychwanegol byw o ddydd i ddydd eisoes yn effeithio'n negyddol ar bob cartref ledled Caerdydd ond hyd yn oed yn fwy felly ar deuluoedd sy'n byw'n agos at dlodi – llawer ohonynt yn deuluoedd sy'n gweithio sydd, serch hynny, yn dal i fod angen ymweld â banciau bwyd ac a fydd bellach yn wynebu'r dewis ofnadwy o wresogi eu cartref neu roi bwyd ar y bwrdd. Dyma Brydain Doriaidd Las ac yn Gymru Doriaidd.

Fel Cyngor, byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i helpu i liniaru costau ynni. Mae hyn yn cynnwys

- y cymorth targedig sydd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi a helpu'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd,
- gwaith ein Gwasanaeth Cyngor Ariannol i wneud y mwyaf o hawlio budd-daliadau cymwys, a chyfeirio preswylwyr at yr opsiynau cymorth ariannol sydd ar gael

- a'n buddsoddiad sylweddol yng nghartrefi presennol y Cyngor, i'w gwneud yn rhatach i'w gwresogi a byw ynddynt.
- ein rhaglen adeiladu Cartrefi Cyngor, sy'n darparu niferoedd cynyddol o gartrefi carbon isel/di-garbon, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ar gyfer rhent cymdeithasol.

Cyfarwyddo swyddogion i lunio adroddiad manwl ar echdynnu nwy yng Nghymru, ei effaith ar leihau ôl troed carbon Caerdydd, ei effaith bosibl ar leihau biliau ynni i drigolion y Ddinas gyda'r bwriad o arwain partneriaeth gyhoeddus/breifafat yn y diwydiant.

Eiliwyd y diwygiad yn ffurfiol gan y Cynghorydd Keith Parry.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a'r diwygiad.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cynghorydd Mackie i ymateb i'r eitemau a godwyd yn ystod y drafodaeth.

Ymatebodd y Cynghorydd Mackie i'r materion a godwyd a chadarnhaodd na dderbyniwyd y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Diwygiad a gynigiwyd gan y Cynghorydd McEvoy ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Keith Parry.

COLLWYD y bleidlais ar y Diwygiad.

Galwodd yr Arglwydd Faer am Bleidlais ar y Cynnig fel y'i symudwyd gan y Cynghorydd Mackie a'i eiliwyd gan y Cynghorydd Lister.

DERBYNIWYD y bleidlais ar y Cynnig Terfynol.

125 : CWESTIYNAU AR LAFAR

Cwestiwn – Y Cynghorydd Philippa Hill-John

Cynghorydd Elsmore, byddwn yn falch i glywed a gwybod pa gamau y gellir eu cymryd i leihau, neu, yn gyntaf oll, i gadarnhau nifer y gwelyau sy'n cael eu meddiannu oherwydd nad yw'r pecynnau gofal parhaus ar waith ar gyfer y rhai sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd?

Ateb – Y Cynghorydd Elsmore

Fel yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles, mae'n bleser gennyf ddweud ar 21 Ionawr 2021, roedd 5 unigolyn mewn gwelyau ysbyty yn aros am ofal cartref. Mae gofal wedi'i gynllunio ar gyfer un o'r rhain a dylid eu rhyddhau cyn bo hir.

Hefyd mae 26 o unigolion, y trefnwyd lleoliad mewn cartref gofal ar eu cyfer, yn aros am ddyddiad rhyddhau.

Mae swyddogion iechyd a gofal cymdeithasol wedi gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda er mwyn sicrhau y gellir rhyddhau unigolion o'r ysbyty i gartref gofal am gyfnod o ymadfer neu i aros am ofal cartref sydd ar gael, gan ryddhau gwelyau ysbyty.

Cwestiwn Atodol – Y Cyngorydd Philippa Hill-John

Yr hyn yr hoffwn ei wybod yw, a gwerthfawrogaf ein bod â galwad am hyn yr wythnos nesaf, ond a oes unrhyw gamau pellach y gallwn eu cymryd fel Cyngor i godi ymwybyddiaeth ... (wedi'i rewi)

Ateb – Y Cyngorydd Elsmore

Dim ond heddiw y clywais fod Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn dechrau prosiect newydd yn edrych ar eu hochr hwy o'r hafaliad mewn perthynas â'r hyn sy'n fater cymhleth iawn o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu o dan yr amgylchiadau hynny i gefnogi'r gwaith hwnnw a bod cytundeb wedi'i roi, neu fod sicrwydd wedi'i roi yn hytrach dylwn ddweud. Fel y gŵyr y Cyngorydd Hill-John, mae hi a minnau'n cael galwad yr wythnos nesaf.

Cwestiwn – y Cyngorydd Taylor

Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau lles staff yn yr adran wastraff?

Ateb – y Cyngorydd Michael

Mae effaith Covid yn lleihau ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw bwysau parhaus ar y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Mae cyfuniad o weithwyr asiantaeth, gan ddefnyddio arian wrth gefn gan dimau gwasanaeth eraill o fewn Gwasanaethau Ailgylchu a Chymdogaeth, a goramser gwirfoddol wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni gofynion gweithredol.

Mae gan y Cyngor bolisiâu a gweithdrefnau corfforaethol cynhwysfawr sy'n ymwneud ag amodau gwaith diogel a lles gweithwyr. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod y polisiâu a'r prosesau hyn yn cael eu dilyn, a bod monitro perfformiad gwasanaethau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon.

Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu model gweithio 4 diwrnod newydd ar gyfer casgliadau yn llwyddiannus ac mae hyn yn cefnogi lles gweithwyr drwy ddarparu 3 diwrnod gorffwys i griwiau rheng flaen.

Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth dîm diogelwch a chydymffurfiaeth mewnlol pwrpasol sy'n darparu asesiad a hyfforddiant ar gyfer swyddogion rheng flaen.

Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Taylor

Mae dau reswm pam yr wyf yn codi'r cwestiwn hwn; yn gyntaf yw'r ffaith bod criwiau casglu gwastraff allan am hanner awr wedi un ar ddeg a hanner nos yn gynharach yn y flwyddyn, yn cynnal casgliadau, y gwnaethoch roi sylw iddynt yn fy nghwestiwn ysgrifenedig, ond yr ail elfen yw fy mod wedi cael cysylltiad gan Unite, yr undeb, yn ystod yr wythnos ddiwethaf am bryderon gweithwyr o fewn yr undeb hwnnw. Deallaf nad yw'r cyngor yn cydnabod, am gael gair gwell, y pryderon hynny ond mae'n amlwg bod pryderon yn y gwasanaeth o ystyried yr hyn sydd wedi digwydd yn ystod y 12-18 mis diwethaf yn benodol. Felly, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gweithwyr yn cymryd rhan yn y newidiadau hynny i'r

gwasanaeth a bod diwygio, newidiadau sy'n dod drwy'r gwasanaeth yn cael eu deall yn iawn ac yn cael eu gweithredu gyda gweithwyr nid yn unig ar eu cyfer.

Ateb – y Cyngorydd Michael

Cyngorydd Taylor, yr wyf wedi mynd i'r afael â'ch cwestiwn ysgrifenedig. Roedd y rhai a oedd mewn gwirionedd yn gwneud y gwaith yn y nos ar sifft nos yr ydym yn ei gweithredu'n fasnachol. Mae prosesau ar waith, mae gan y Cyngor brosesau hirsefydlog ar ôl cytuno â'r undebau, ac fel yn awr nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gwynion wedi'u gwneud mewn unrhyw gyfarfodydd eraill sydd wedi'u cynnal i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddwn yn annog unrhyw un sydd ag unrhyw gwynion difrifol i'w gwneud, i fanteisio ar y cyfle a gwneud y cynion hynny fel y gellir ymchwilio iddynt, dyna'r unig ffordd y bydd unrhyw beth yn cael ei gyflawni mewn gwirionedd.

Cwestiwn – Y Cyngorydd Keith Parry

Mae trigolion y Tyllgoed, Trelái a Sain Ffagan wedi cael eu haflonyddu'n fawr oherwydd bod Michaelston Road wedi cau ers pythefnos. Mae'r llwybr amgen bedair milltir o hyd ac mae wedi cynyddu tagfeydd yn fawr wrth gyffordd Heol Waungron a Rhodfa'r Gorllewin. Beth all y Cyngor ei wneud i atal cau o'r fath yn y dyfodol?

Ateb - y Cyngorydd Wild

Fel y gwyddoch, mae cwmnïau cyfleustodau yn cael eu dosbarthu fel Ymgymerydd Statudol; mae ganddynt hawl gyfreithiol i ymgymryd â gwaith o fewn y Briffordd Gyhoeddus. Mae ar bobl angen y gwasanaethau hynny y mae cwmnïau cyfleustodau yn eu darparu. Cytunir ar y gwaith hwn o flaen llaw a'i fonitro drwyddi draw.

Archwiliwyd yr holl opsiynau rheoli traffig y tro hwn cyn cytuno ar gau'r ffordd ar Michaelston Road; fodd bynnag, oherwydd y lled weddilliol oedd ar ôl ar y briffordd, nid oedd dewis arall ar gael i alluogi'r gwaith i gael ei wneud yn ddiogel.

Cwestiwn - y Cyngorydd Robson

Beth yw terfyn y ddirprwyaeth swyddogion yng Nghaerdydd i gymeradwyo ceisiadau am gronfa Benthyciadau Canol Trefi?

Ateb – y Cyngorydd Goodway

Gallaf gadarnhau bod swyddogion yn gallu cymeradwyo ceisiadau unigol am gyllid fel rhan o gynllun benthycia Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru hyd at derfyn o £1 miliwn. Caiff pob cais ei ystyried gan banel buddsoddi sy'n cynnwys swyddogion o Dimau Cyllid, Cyfreithiol a Datblygu Economaidd y Cyngor, gyda mewnbwn gan gynghorwyr annibynnol. Mater i'r Cabinet benderfynu arno yw unrhyw gais sy'n gofyn am fwy nag £1 miliwn o gyllid benthyciadau.

Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Robson

Mae hynny'n ddiddorol iawn ac, a gaf i ddweud hynny, ffigur uchel iawn yn fy marn i i swyddog fod wedi dirprwyo iddynt heb gyfeirio at y Cabinet na strwythurau democrataidd. Rwy'n sylweddoli nad ein harian ni yn dechnegol ydyw, arian Llywodraeth Cymru y mae'r Cyngor yn ei weinyddu drwy'r cynllun benthyciadau ond, serch hynny, a ydych yn credu bod dadl dros fwy o gyfranogiad gan Aelodau, efallai drwy Graffu, cyn i benderfyniad gan y

Cabinet gael ei wneud, ar derfyn is, dyweder hanner miliwn neu chwarter miliwn, rhywbeth mwy priodol lle gall Cyngorwyr gyfrannu at hyn. Mae'n fy mhoeni braidd, er fy mod yn gobeithio bod y benthyciad wedi'i gymeradwyo'n iawn, nad oes dull i gyfeirio nôl at Aelodau

Ateb – y Cyngorydd Goodway

Gallaf ddeall yr hyn yr ydych yn ei ddweud, Cyngorydd Robson. I'r mwyafrif llethol o bobl mae £1 miliwn o bunnoedd yn llawer iawn o arian ond wrth gwrs yng nghyd-destun gwariant y Cyngor a'r cyhoedd, yna nid yw £1 miliwn o bunnoedd mor sylweddol â hynny, ac nid yn unig mewn perthynas â'r cynllun penodol hwn y mae'r terfyn o £1 miliwn yn berthnasol. Gall swyddogion gaffael a gwaredu tir ac eiddo o dan Swyddog Penderfyniad Dirprwyedig hyd at werth £1 miliwn o bunnoedd felly nid yw'r ffigur o £1 miliwn o bunnoedd yn benodol i'r trefniant penodol hwn - mae'n berthnasol ar draws y Cyngor rwy'n credu, ac wrth fyfyrto, mae'n gymesur, pan ystyriwch faint y trafodion y mae'r Cyngor yn ddyddiol, yn ymgymryd â hwy. Pe bai'n rhaid i bob contract sy'n is na £1 miliwn o bunnoedd ddod gerbron y Cabinet neu ddod gerbron Aelodau, nid wyf yn siŵr y byddai gan aelodau'r amser i ddelio â hwy i gyd oherwydd ein bod yn delio a thros £1 biliwn o bunnoedd y flwyddyn. Hynny yw, rydym yn delio a mil filiwn o bunnoedd y flwyddyn ac yn ei wario ac nid wyf yn siŵr a fyddai gennym y gallu ar lefel Aelod i ddelio â hynny i gyd. Rwy'n deall y teimladau y tu ôl i'ch cwestiwn, sy'n beth anffodus mewn gwirionedd oherwydd dylwn i ddim deall hyn mewn gwirionedd?

Cwestiwn – y Cyngorydd Owen-Jones

Beth mae'r Cyngor wedi bod yn ei wneud i geisio atal pobl ifanc rhag dod yn ddi-waith ac nid mewn addysg neu hyfforddiant?

